

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Panel Gwaith y Clerc a gynhaliwyd Nos Iau, 13 Medi 2018 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Clerks Working Group held at Carmel Village Hall, Thursday, 13th September 2018 at 7.00pm

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Hywel J Owen ; Bryn Williams
David Roberts, Clerc/Clerk.

1 Croeso'r Cadeirydd - Chairmans Welcome

Etholwyd Cyng. Gyn Owen Jones i'r gadair. Croesawodd pawb oedd yn bresennol. Aeth yn syth at y rhaglen.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Clive Bayley a Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Gerwyn Owen

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Fe wnaeth y Clerc ddatgan buddiant ond gofynnwyd iddo aros gan fod y Panel angen gwybodaeth / The Clerk declared his interest but the Panel asked the Clerk to stay as information was required.

4 Swydd Ddisgrifiad / Job Description

Dosbarthwyd copi i bob aelod o swydd ddisgrifiad gwaith y Clerc.

Nodwyd gan yr aelodau nad yw'r teitl y swydd sef "Clerc y Cyngor" bellach yn adlewyrchu llwyth gwaith y Clerc.

Argymhelliad yr aelodau oedd newid y teitl y swydd i "Rheolwr Gweinyddiaeth a Chyllid"

Aethpwyd ati i edrych yn fanwl ar y swydd ddisgrifiad lein wrth lein.

Gwnaed addasiadau i'w diweddarau.

Bydd y Clerc yn addasu'r swydd ddisgrifiad a'i dosbarthu i'r aelodau'r gweithgor erbyn y cyfarfod nesaf o'r gweithgor.

Argymhelliad i'r Cyngor -

- i) Fod y Cyngor yn newid teitl y swydd i "Rheolwr Gweinyddiaeth a Chyllid"***
- ii) Fod y Cyngor yn nodi fod y gweithgor yn addasu a diweddarau y Swydd Ddisgrifiad***

Recommendation to the Council-

- i) That the Council changes the title to "Administration & Finance Manager"***
- ii) That the Council notes that the working group is amending (updating) the job description***

4 Cytundeb Gwaith y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Clerks Contract of Employment

Dosbarthwyd copi i bob aelod o gytundeb gwaith oedd wedi ei arwyddo yn Medi 2006.

Aethpwyd ati i'w addasu ac i'w diweddarau.

Bydd y Clerc yn addasu'r swydd ddisgrifiad a'i dosbarthu i'r aelodau'r gweithgor erbyn y cyfarfod nesaf o'r gweithgor.

Argymhelliad i'r Cyngor - fod y Cyngor yn nodi fod y gweithgor yn addasu a diweddarau y Cytundeb Gwaith.

Recommendation to the Council – that the Council notes that the working group is updating the contract of employment .

5 Cyflog y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Salary

Adroddwyd fod y Cyngor, yn ei gyfarfod Mehefin 2018, (yn dilyn argymhellion cyfarfod y gweithgor a gynhaliwyd 30 Mai 2018) wedi penderfynu arfarnu swydd y Clerc i adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol ers iddo ei benodi ym Mehefin 2006.

'Roedd yr aelodau yn cytuno fod y swydd bellach yn symud o fand LC1 i fand LC2 ond 'roedd angen trefn i osod y pwynt cyflog naill ai ar y meincnod, llai na'r meincnod neu uwch y meincnod.

Barn yr aelodau oedd bod angen trefn i sgorio'r cyfrifoldebau fel bod pob agwedd o'r gwaith yn cael ei ystyried.

Dosbarthwyd templed gan y Clerc oedd yn cael ei ddefnyddio gan rhai Cyngorau i arfarnu swyddi clerod.

Penderfyniad yr aelodau oedd defnyddio'r templed ac fe'i haddaswyd i adlewyrchu gofynion y swydd.

Bydd y gweithgor yn cyfarfod eto yn fuan gan ddefnyddio'r templed i adnabod y raddfa newydd cyn gofyn i'r Cyngor gadarnhau'r cyflog newydd.

Bydd y gweithgor hefyd yn adolygu oriau gwaith a lwfans y Rheolwr

Argymhelliad i'r Cyngor -

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn y bydd y gweithgor yn cyfarfod Nos Iau, Medi 20fed i ddiweddarau y templed i arfarnu'r swydd cyn argymhell y cyflog diwygedig i'r Cyngor yn Hydref.***
- ii) *Fod y Cyngor yn gofyn i'r gweithgor edrych ar oriau gwaith a lwfans y Rheolwr yn ei gyfarfod nesaf.***

ii)

Resolved

- i) *That the Council accepts that the Working Group, in its next meeting on Thursday September 20th, will be carrying updating the template to carry out the appraisal of before recommending to the revised salary to the Council in October.***
- ii) *That the Council asks the Working Group to review the working hours and allowance of the manager.***

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 yr hwyr / The meeting ended 8:25 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Signed by the Chairmam

Dyddiad - Date